**Julie Morgan AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/JM/0680/19

Aelodau'r Cynulliad

21 Hydref 2019

Annwyl Aelodau'r Cynulliad,

Rwy'n falch iawn bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pleidleisio i gefnogi Egwyddorion Cyffredinol Bil Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) ar 17 Medi.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgorau ac i bawb a gyfrannodd yn ystod proses graffu Cam 1 y Bil, ac i'r rheini a siaradodd yn ystod y ddadl fis diwethaf. Ni chefais amser i ymateb i'r holl bwyntiau a godwyd yn ystod y ddadl, felly rwyf yn manteisio ar y cyfle hwn i wneud hynny cyn sesiwn y Pwyllgor yng Ngham 2.

Gobeithio y bydd yr Aelodau yn gweld yr wybodaeth a ddarperir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn yn ddefnyddiol yn ystod eich gwaith parhaus o graffu ar y Bil.

Yn gywir

Julie

**Julie Morgan AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad

### *Cymorth rhianta ac ymarfer mapio*

Mae cefnogi rhieni yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon ac, fel yr amlinellais yn fy ymateb i argymhelliad 7 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc and Addysg (CYPE), mae gennym becyn o fesurau ar waith eisoes. Mae hyn yn cynnwys 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo', Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Rhaglen Plant Iach Cymru. Rwyf wedi ychwanegu £30,000 at y gyllideb ar gyfer Magu Plant, Rhowch Amser Iddo y flwyddyn ariannol hon er mwyn datblygu adnoddau newydd ac ehangu'r ystod oedran o gefnogaeth o 0 – 7 oed i 0 – 18 oed.

Mae fy swyddogion wedi cynnal ymarfer mapio sy'n diweddaru'r ymarfer a gynhaliwyd yn 2016/17. Yn sgil yr ymarfer hwnnw, nodwyd y byddai rhieni sy'n gwahanu a phlant y mae ganddynt riant sydd wedi'i garcharu yn elwa ar gymorth ychwanegol. O ganlyniad, darparodd Llywodraeth Cymru £434,000 i awdurdodau lleol yn 2017/18 ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle a gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd. Roedd hyn yn cynnwys darparu hyfforddiant ar wrthdaro rhwng rhieni a charcharu rhieni. Defnyddiwyd £32,000 ychwanegol yn 2017/18 er mwyn sicrhau bod cwrs CAFCASS Cymru, Gweithio Gyda'ch Gilydd Er Lles Plant, ar gael yn ehangach i rieni. Mae'r cwrs hwn yn helpu rhieni i ddeall sut i weithio gyda'i gilydd wrth iddynt wahanu ac ar ôl hynny, i gefnogi eu plant yn y ffordd orau. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwella sgiliau'r gweithlu ac rydym wedi sicrhau £400,000 o Gronfa Bontio'r UE ar gyfer 2019-20 er mwyn helpu i liniaru effaith bosibl Brexit ar gydberthnasau rhieni a theuluoedd.

Rydym wedi ailsefydlu'r Grŵp Cynghori Arbenigol ar Rianta (PEAG) a'n cefnogodd i ddatblygu ymgyrch Magu Plant. Rhowch amser iddo, fel grŵp gorchwyl a gorffen o dan Grŵp Gweithredu Strategol y Bil. Mae'r PEAG yn cynnwys rhanddeiliaid o amrywiaeth o broffesiynau a sectorau sy'n ymwneud â rhianta. Yn ei gyfarfod cyntaf ar 17 Hydref, ystyriodd PEAG ganlyniadau'r ymarfer mapio. Byddaf yn rhannu cynllun prosiect y grŵp â chi maes o law, ac yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar waith y grŵp, yn gysylltiedig â cherrig milltir allweddol.

### *Trais neu gam-drin nad yw'n gorfforol*

Mae Erthygl 19 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) yn ei gwneud yn ofynnol i Wladwriaethau "gymryd pob mesur deddfwriaethol, gweinyddol, cymdeithasol ac addysgol sy'n briodol i amddiffyn y plentyn rhag pob ffurf gorfforol neu feddyliol ar drais, anaf neu gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, camarfer neu gam-fanteisio, gan gynnwys camdriniaeth rywiol, tra bo yng ngofal rhiant (rhieni), gwarcheidwad (gwarcheidwaid) neu unrhyw berson arall sydd â gofal dros y plentyn"[1].

[1]Mae testun llawn yr Erthygl yn cynnwys 19. 2 sy'n nodi "Dylai'r mesurau amddiffynnol hynny gynnwys, fel y bo'n briodol, weithdrefnau effeithiol ar gyfer sefydlu rhaglenni cymdeithasol i roi cymorth angenrheidiol i'r plentyn ac i'r rhai sydd â gofal drosto, yn ogystal ag ar gyfer ffurfiau eraill ar atal ac ar gyfer canfod achosion o gam-drin plant fel y'u disgrifiwyd cyn hyn, hysbysu o'r achosion hynny, eu hatgyfeirio, ymchwilio iddynt, eu trin a'u dilyn ac, fel y bo'n briodol, ar gyfer cyfranogiad barnwrol."

Cwestiynwyd pam roedd y llywodraeth ond yn deddfu mewn perthynas â thrais corfforol yn erbyn plentyn, ac nid trais meddyliol, ac a oedd hyn yn dangos diffyg cysondeb yn y dull o fynd i'r afael â gofynion yr UNCRC.

Nid oes angen creu trosedd o niwed seicolegol neu feddyliol pan fo deddfwriaeth gadarn a phenodol a chanllawiau statudol ar waith eisoes.

Mae cam-drin emosiynol parhaus, sy'n achosi niwed seicolegol, eisoes yn anghyfreithlon. Mae trosedd creulondeb i bobl o dan 16 oed yn cynnwys dioddefaint o natur seicolegol, fel y nodir yn Neddf Plant a Phobl Ifanc 1933, adran 1.  At hynny, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cyflwyno dull partneriaeth cryfach, cadarn ac effeithiol at ddiogelu, ac mae canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno yn nodi'r dyletswyddau clir sydd gan asiantaethau o ran plant sydd mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod corfforol neu ffurfiau eraill ar gam-drin. O dan y fframwaith hwn, mae'r categorïau o gam-drin eisoes yn cynnwys cam-drin emosiynol neu seicolegol a all fod ar ffurf bygwth eu niweidio neu eu gadael, rheolaeth drwy orfodaeth, cywilyddio, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu eu tynnu'n ôl oddi wrth wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol, neu weld eraill yn cael eu cam-drin.

Nid oes unrhyw anghysondeb felly yn ymagwedd y llywodraeth at drais yn erbyn plant: rydym yn dileu amddiffyniad i droseddau Ymosod a Churo, sef y rheswm pam y mae'r ddeddfwriaeth ym maes cyfraith trosedd.

***Y posibilrwydd o droseddoli rhieni***

Nid yw newid y gyfraith drwy ddileu amddiffyniad cosb resymol ynddo'i hun yn troseddoli rhiant neu unrhyw unigolyn arall – gweithredoedd person mewn perthynas â'r gyfraith fel y'i diwygiwyd a allai beri iddynt gael cofnod troseddol.

Byddwn yn parhau i gefnogi rhieni a byddwn yn cynnal ymgyrch gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r gyfraith. Nid yw'n fwriad gennym i dynnu pobl i mewn i'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, drwy ddileu'r amddiffyniad, mae'n bosibl y byddai nifer bach o rieni yn cael eu cyhuddo o drosedd mewn amgylchiadau lle na fyddai hynny'n digwydd ar hyn o bryd, neu'n cael eu herlyn am hynny.

Mae'r Bil yn dileu'r amddiffyniad i drosedd ymosod cyffredin sydd wedi bod yn rhan o gyfraith gyffredin Cymru a Lloegr ers amser hir iawn. Mae'r heddlu'n derbyn ac yn ymchwilio i adroddiadau am blant yn dioddef ymosodiadau, ac yn dilyn gweithdrefnau sefydledig i benderfynu ar y ffordd orau o weithredu. Fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, dywedodd Matt Jukes wrth gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor CYPE ar 16 Mai:

*".. nid yw fy nghydweithwyr yn mynd i ddigwyddiadau mewn cartrefi lle bu ymosodiad honedig ac yn gadael heb gymryd unrhyw gamau pellach. Maent yn mynd i'r digwyddiadau hynny a, hyn yn oed os nad fyddant yn arestio rhywun, byddant yn cyfeirio'r digwyddiadau hynny i'r trefniadau diogelu amlasiantaeth hynny a fydd yn eu hasesu. Felly, rydym yn creu cofnodion heddlu eisoes, mewn ffordd – a dwi ddim yn sôn am gofnodion troseddol, ond cofnodion plismona – am rieni yr ydym wedi dod i gysylltiad â nhw lle mae'r cwestiwn o gosb resymol yn codi. Felly, nid yw'n glir i mi*

*ein bod yn mynd i greu — oni bai bod agweddau cymunedau'n newid yn sylweddo l— nifer enfawr o adroddiadau newydd."*

Mae'r gwaith yn parhau gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron a thrwy ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynllun Penderfynu a Gwyro y Tu Allan i'r Llys i ymchwilio i'r potensial ar gyfer cynllun gwyro a fydd yn ceisio cynnig cefnogaeth i rieni yn ymwneud â dulliau cadarnhaol o ddisgyblu eu plentyn.

Ceir esboniad llawn o'r effeithiau posibl a'r prosesau a'r gweithdrefnau perthnasol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol, a'r gwasanaeth datgelu a gwahardd yn Atodiad 4 ac Atodiad 5 o'r Memorandwm Esboniadol[2]. Ynghyd â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol, mae nifer o effeithiau posibl eraill wedi'u hystyried, ac mae asesiadau effaith llawn wedi'u cynnal lle y bo angen. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r effaith ar gyfiawnder a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n adlewyrchu'r effaith fwyaf tebygol ar y system gyfiawnder[3].

***Effeithiau ar blant***

Mae'r Bil hwn yn mynd â'n hymrwymiad i amddiffyn hawliau plant gam ymhellach a bydd yn helpu i roi diwedd ar gosbi plant yn gorfforol yng Nghymru. Os caiff ei basio, bydd y Bil hwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi'u hamddiffyn yn gyfreithiol rhag cosb gorfforol.

Ynghyd â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ystyried yr effeithiau posibl ar blant yn llawn[4]. Fel y nodwyd yn yr asesiadau hyn, o ganlyniad i newid y gyfraith gallai nifer bach iawn o rieni gael eu harestio, gael collfarn droseddol neu gael eu gwahanu oddi wrth eu plentyn oherwydd gofynion diogelu. Yn yr achosion hyn, gallai fod effaith ar y plentyn, ond nid ydym yn disgwyl gweld llawer o achosion o'r fath.

Fel yr amlygwyd gan Brif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Matt Jukes, wrth gyflyno tystiolaeth i Bwyllgor CYPE (gweler y dyfyniad ar waelod tudalen 2) nid yw'r materion hyn yn rhai newydd nac yn gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon yn benodol. Bydd yr effaith ar y plentyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol, gan gynnwys oedran y plentyn, ei allu gwybyddol, ac ymateb y rhiant. Bydd yr heddlu'n gwneud unrhyw benderfyniadau am unrhyw gamau pellach yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys p'un a oes digon o dystiolaeth, pryderon am ddiogelu a'r hyn yr ystyrir ei fod er budd pennaf y plentyn.

Darparodd yr heddlu hefyd dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor CYPE[5] yn nodi "mewn rhai achosion byddai angen tystiolaeth gan blentyn yn erbyn ei riant er mwyn cefnogi a bwrw ymlaen ag erlyniad. Yn yr achosion hyn, er mwyn atal ymyrraeth â'r

---

[2] http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12454-em/pri-ld12454-em-e.pdf

[3]Gellir gweld yr asesiadau effaith llawn yma. https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig?_ga=2.49596130.536977230.1571406340-2021647112.1565781255

[4] https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig?_ga=2.49596130.536977230.1571406340-2021647112.1565781255

[5] http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=443&MId=5518&Ver=4

erlyniad ac fel rhan o'r mesurau diogelu, ni fyddai'r rhiant a'r plentyn yn gallu cyd-fyw". Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor CYPE ar 16 Mai[6], dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent a Chadeirydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan, Jeff Cuthbert y byddai hyn ond yn digwydd mewn “achosion eithriadol”.

Fel y nodir yn yr asesiad o'r effaith ar gyfiawnder, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn awgrymu mai dim ond nifer bach o rieni a fyddai'n cael eu herlyn am drosedd mewn amgylchiadau lle na fyddent yn cael eu herlyn ar hyn o bryd. Yn ei lythyr i Bwyllgor CYPE noda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod "Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn disgwyl na fydd fawr ddim effaith ar lwythi achosion y Llysoedd Ynadon".[7] Meddai Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Matt Jukes wrth gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor CYPE

*“Credaf, pan fyddwn yn ystyried y trothwyon ar gyfer erlyn ac yn dechrau siarad am y broses haenau, ni fydd yr achosion lle byddem efallai yn ystyried symud y plentyn o'r cartref am y rhesymau hyn yn wahanol iawn i'r rheini sy'n codi ar hyn o bryd. …. Yn fy marn i, rydym yn gwneud hyn nawr, byddwn yn parhau i'w wneud nawr ac yn y dyfodol, ac rwy'n meddwl ei bod yn bwysig iawn pwysleisio ein bod yn gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn, ac mae rheidrwydd a chymesuredd bob amser yn rhan ohonynt.*

***Potensial ar adroddiadau maleisus***

Mae honiadau maleisus yn cael eu gwneud ar hyn o bryd. Mae gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys y llysoedd teulu, yn gwneud penderfyniadau ar faterion o'r fath yn barod; nid yw'r Bil hwn yn newid hynny.

Fel yr amlinellir yn fy llythyr i Bwyllgor CYPE ar 4 Mehefin[8], mae Cafcass Cymru yn hapus bod trefniadau ar waith yn y llys i ymdrin â materion o'r fath. Er ei bod yn bosibl y gallai honiadau ychwanegu at gymhlethdod achosion, nid yw'n bosibl rhagfynegi neu fesur yn union sut beth fydd hyn.

Fel y disgrifiais hefyd yn fy ymateb i argymhellion CYPE Cam 1[9] er y byddai'n ddefnyddiol deall faint o'r adroddiadau o gosbi plentyn yn gorfforol sy'n rhai maleisus, byddai hyn mewn gwirionedd yn her sylweddol.

Mae hyn, fodd bynnag, yn fater y mae Cafcass Cymru yn ei ystyried o ddifrif mewn cysylltiad â honiadau o gam-drin domestig. Bydd angen i Cafcass Cymru asesu a yw'r dull hwn wedi llwyddo i adnabod achosion o adrodd maleisus mewn cysylltiad â cham-drin domestig, ac a yw'n ddichonadwy ac yn ymarferol i gyflwyno'r broses hon ar raddfa fwy.

[6] http://www.senedd.cynulliad.cymru/ieListDocuments.aspx?CId=443&MId=5518&Ver=4
[7] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s91407/Y%20Weinyddiaeth%20Gyfiawnder.pdf
[8] http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s89821/CYPE5-18-19%20-%20Papur%20iw%20nodi%202.pdf
[9]http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s93534/Ymateb%20Y%20Dirprwy%20Weinidog%20Iechyd%20a%20Gwasanaethau%20Cymdeithasol%20i%20adroddiad%20Cyfnod%201%20y%20Pwyllgor%20Plant%20.pdf

***Profiad yn Seland Newydd***

Mae Atodiad 6 o'r Memorandwm Esboniadol[10] yn nodi manylion y data a gyhoeddwyd gan heddlu Seland Newydd am nifer yr achosion a adroddwyd iddynt yn y tri mis cyn newid y gyfraith, ac yn y pum mlynedd wedi hynny[11]. Mae'r data hyn yn nodi'r achosion o smacio a mân weithredoedd o ddisgyblaeth gorfforol ac a arweiniodd ymchwiliadau i'r digwyddiadau hyn at erlyniadau. Yn y pum mlynedd ar ôl newid y gyfraith, bu 8 erlyniad am 'smacio' a 55 o erlyniadau am 'fân weithredoedd o ddisgyblaeth gorfforol'.

Yn Seland Newydd yn 2009, ddwy flynedd ar ôl i'r gyfraith ddod i rym, dywedodd Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu Rob Pope mewn adolygiad o weithgarwch yr heddlu:

*“Rwy'n hyderus wrth ddweud bod yr adolygiad diweddaraf hwn yn dangos eto nad yw'r diwygiad wedi cael fawr ddim effaith ar weithgarwch yr heddlu. 'Busnes fel arfer' ydyw i ni o hyd ac mae'r heddlu yn parhau i ddefnyddio'u disgresiwn a'u synnwyr cyffredin wrth wneud penderfyniadau am ddigwyddiadau lle ymosodir ar blentyn."*[12]

Yn Seland Newydd, mae'r data a gasglwyd gan yr heddlu yn cwmpasu ymosodiadau a adawodd dystiolaeth barhaus, fel marcio neu gleisio'r croen. Mewn gwrthgyferbyniad, nid oes amddiffyniad ar gael yng Nghymru ar gyfer y mathau hyn o ymosodiadau ar hyn o bryd. Felly mae'r ffigurau ar gyfer erlyniadau yn Seland Newydd ar ôl y newid i'r gyfraith yn cynnwys erlyniadau am weithredoedd sydd eisoes yn droseddau yng Nghymru.

Nid yw'r data hyn yn cynnig cyd-destun ehangach o ran a gafodd yr erlyniadau neu ymchwiliadau'r heddlu yn Seland Newydd ganlyniadau ar gyfer cyflogaeth yr unigolyn neu a oedd gwasanaethau cymdeithasol yn ymwneud â'r sefyllfa, ac nid ydym yn ymwybodol o unrhyw adroddiad llywodraeth sy'n cynnig y wybodaeth hon.

Nid yw heddlu Seland Newydd wedi cyhoeddi data ers 2012. Yn 2014[13] a 2018[14] comisiynwyd Chen Palmer gan Family First[15] i ddarparu barn gyfreithiol ar newid y gyfraith yn Seland Newydd. Dadansoddodd Chen Palmer drafodion yn ymwneud â nifer bach o achosion llys, gan gynnwys achosion a ddarparwyd gan Family First. Fel y nodwyd gan Chen Palmer ym mharagraff 7 o'i adroddiad yn 2018:

*“Mae'r anawsterau wrth gael gafael ar gopïau o ddyfarniadau ar y lefel hon* [llys dosbarth] *yn atal dadansoddiad cynhwysfawr o'r ffordd y mae'r gyfraith yn cael ei dehongli ar y lefel sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o rieni.”*

---

[10] http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12454-em/pri-ld12454-em-w.pdf
[11] https://www.police.govt.nz/about-us/publication/crimes-substituted-section-59-amendment-act-2007
[12] https://www.police.govt.nz/news/release/19854
[13] https://www.familyfirst.org.nz/wp-content/uploads/2014/11/aaa-CHEN-PALMER-OPINION-NOV-2014.pdf
[14] https://www.familyfirst.org.nz/wp-content/uploads/2018/01/Chen-Palmer-Opinion-s59-Crimes-Act-January-2018.pdf
[15] Grŵp lobïo yw Family First, sy'n gwrthwynebu'r ddeddfwriaeth yn Seland Newydd ac sy'n dymuno diwygio'r gyfraith i ganiatáu “smacio ysgafn”. Collodd y grŵp ei statws elusennol gan Fwrdd Cofrestru Elusennau Seland Newydd yn 2017 a chefnogwyd y penderfyniad hwn gan Uchel Lys Seland Newydd, Cofrestrfa Wellington https://www.charities.govt.nz/assets/Uploads/Family-First-New-Zealand2.pdf

Ym mharagraff 7 o'r un adroddiad, aiff ymlaen i ddweud y canlynol:

*"Rydych chi* [Family First] *wedi cynghori na all yr heddlu ddarparu dadansoddiad o nifer y rheini a gaiff eu herlyn o dan yr adran hon* [adran 5 o Ddeddf Troseddau (Disodli Adran 59) Diwygio 2007][16]*, y nifer a gaiff eu rhyddhau heb eu collfarnu a pham, a'r nifer a gaiff eu collfarnu. Mae absenoldeb y data allweddol hyn yn rhwystr pellach wrth ddadansoddi a yw'r gyfraith yn gweithio yn y ffordd a fwriedir gan y senedd."*

Er bod rhywfaint o debygrwydd rhwng Cymru a Seland Newydd, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi nifer o wahaniaethau clir a hoffwn dynnu sylw at y ffaith bod y ddeddfwriaeth yn Seland Newydd ond wedi cychwyn fis ar ôl Cydsyniad Brenhinol[17]. Rwyf wedi cyflwyno diwygiad i ddarparu ar gyfer cyfnod o ddwy flynedd rhwng Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y ddeddfwriaeth er mwyn rhoi digon o amser i godi ymwybyddiaeth o'r newid hwn yn y gyfraith.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Medi, cyfarfûm yn ddiweddar â Chomisiynydd Plant yr Alban, a aeth i Seland Newydd ym mis Awst i gyfarfod â'r heddlu, gweithwyr cymdeithasol a chymdeithas sifil (gan gynnwys sefydliadau rhianta). Roeddent yn unfryd yn eu barn gadarnhaol am y newid yn y gyfraith yno. Mae gweithwyr cymdeithasol yn croesawu'r eglurder a ddarperir gan y ddeddf, a dywedodd yr heddlu nad oedd wedi arwain at fwy o erlyniadau – ond yn hytrach, ei bod wedi rhoi mwy o eglurder i swyddogion ac wedi caniatáu ar gyfer ymyriadau cefnogol. Nododd y gweithwyr rheng flaen hyn yn Seland Newydd y newid cynyddol yn agweddau'r cyhoedd dros y degawd diwethaf, a gefnogir gan arolygon y Llywodraeth o'r boblogaeth[18].

***Effaith ar wasanaethau cyhoeddus***

Fel y nodais eisoes, nid oes cynsail yn y DU[19] ar gyfer dileu'r amddiffyniad ac felly nid oes gofyniad i gasglu data am achosion o gosbi corfforol. Mae'n anodd rhagfynegi'r effaith yn gywir. Fodd bynnag, yn eu tystiolaeth i Bwyllgor CYPE, nododd gwasanaethau cymdeithasol a'r heddlu eu bod eisoes yn ymdrin â galwadau ac atgyfeiriadau yn ymwneud â chosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys yr hyn a ddiffinnir ar hyn o bryd fel cosb resymol. Ni fydd hwn yn gategori newydd o waith felly. Fel y nododd Pwyllgor CYPE yn ei adroddiad Cam 1[20]:

---

[16] http://www.legislation.govt.nz/act/public/2007/0018/latest/whole.html

[17] Cafodd Deddf Troseddau (Disodli Adran 59) Diwygio 2007 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mai 2007, a daeth y gyfraith i rym ar 21 Mehefin 2007.

[18] Fel rhan o Arolwg Iechyd Seland Newydd, gofynnwyd i rieni neu brif ofalwyr a oeddent wedi cosbi eu plant yn gorfforol yn ystod y pedair wythnos diwethaf. Mae'r arolwg yn cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb â rhieni neu brif ofalwyr dros 4000 o blant bob blwyddyn. Mae canran y plant a gafodd eu cosbi'n gorfforol wedi gostwng o 10.4% yn 2006/07 i 4.5 % yn 2017/18. https://minhealthnz.shinyapps.io/nz-health-survey-2017-18-annual-data-explorer/_w_0811ceee/_w_65556e86/_w_ed7bb274/#!/explore-topics

[19] Er bod Aelodau o Senedd yr Alban wedi pasio Bil Plant (Amddiffyniad Cyfartal rhag Ymosodiad) (yr Alban) nid yw wedi cael Cydsyniad Brenhinol eto nac ychwaith wedi dod i rym; ac mae'r un cyfyngiadau data yn gymwys https://www.parliament.scot/S5_Equal_Opps/12062019_CEPfA__letter_to_Committee_on_costs.pdf

[20] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld12708/cr-ld12708-w.pdf

*“Yn ddieithriad, maent [y rheini sy'n gweithio ar y rheng flaen, yn darparu gwasanaethau] wedi deud wrthym y bydd y Bil hwn yn gwella eu gallu i amddiffyn plant sy'n byw yng Nghymru am y bydd yn cynnig eglurder o ran y gyfraith. Dywedwyd wrthym, o ganlyniad, y bydd hyn yn eu helpu i amddiffyn plant yn well, gan gynnwys y rheini ar “ben caled” y system amddiffyn plant. Dywedodd gweithwyr proffesiynol wrthym y bydd y Bil hwn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol gan ei fod yn cynnig llinell glir iddynt ac, yn bwysig ddigon, ffin glir y gall rhieni, plant a'r cyhoedd ehangach ei deall yn glir."*

Mae hyn yn cadarnhau'r hyn a nodir yn y Memorandwm Esboniadol. Mae data a gyhoeddwyd gan wledydd eraill ar effaith y mesurau y maent wedi'u rhoi ar waith i atal cosbi plant yn gorfforol wedi cael eu harchwilio'n drylwyr. Cynhaliwyd trafodaethau ag amrywiaeth o randdeiliaid yn Iwerddon, Seland Newydd a Malta sydd â systemau cyfreithiol tebyg i'n system ni. Yn y gwledydd hyn, nid oes dim tystiolaeth fod yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol wedi cael eu llethu ar ôl diwygio'r gyfraith.

Yn eu tystiolaeth i Bwyllgor CYPE yng Ngham 1, mae gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar y rheng flaen wedi cadarnhau eu barn, sef:

*“Yn nhermau trothwyon ar gyfer gwasanaethau plant, ni fyddem yn rhagweld nifer enfawr o atgyfeiriadau atom ni. Mae'n bosibl y daw nifer bach o atgyfeiriadau atom. Yr hyn a wyddom o wledydd eraill yw y bydd yn cyrraedd penllanw ac yna'n tawelu. Rydym yn cydnabod bod hynny'n debygol o ddigwydd".*

Sally Jenkins, o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

*“…nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd yna gynnydd enfawr yn nifer yr atgyfeiriadau sy'n dod i law gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Rwy'n credu y byddant yn ymdrin â nhw gan ddefnyddio'u hadnoddau presennol.”*

Jane Randall, Cadeirydd, Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

*“Ni allaf weld y bydd yn ymestyn ymgynghoriadau. Ni allaf weld y bydd yn cynyddu nifer yr ymgynghoriadau, ac nid wyf yn credu y bydd yn cynyddu nifer yr atgyfeiriadau y byddaf yn eu gwneud i'r ymwelydd iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, oherwydd pe byddwn yn poeni, byddwn yn gwneud yr atgyfeiriadau p'un a oedd Bil ai peidio."*

Dr Rowena Christmas, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol

*“Byddwn yn synnu'n fawr pe byddem yn erlyn mwy na chwpwl bach bob blwyddyn, os cymaint â hynny. Os cymaint â hynny. Mae'n bosibl y byddem yn cael mwy o atgyfeiriadau gan yr heddlu, ond byddwn yn amau a fyddai hyd yn oed yn dyblu'r nifer rydym yn ei herlyn. Felly, rydych yn sôn am niferoedd bach. Nawr, niferoedd bach–ac mae'n bosibl na fydd dim."*

Barry Hughes, Prif Erlynydd y Goron yng Nghymru

Rydym yn ymrwymedig i weithio gyda'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a'r gwasanaethau cymdeithasol i gasglu data, a hynny er mwyn sefydlu llinell sylfaen cyn gweithredu,

ac i fonitro'r effaith ar ôl gweithredu. Rydym yn mynd â'r gwaith hwn rhagddo drwy'r Grŵp Gweithredu Strategol.

Ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae Atodiad 4 o'r Memorandwm Esboniadol[21] yn rhoi esboniad llawn o'r effaith bosibl ar wasanaethau cymdeithasol. Mae asesiad o'r effaith ar gyfiawnder wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac sy'n adlewyrchu'r effaith fwyaf tebygol ar y system gyfiawnder[22].

***Barn gyhoeddus***

Gwnaethom gyhoeddi gwaith ymchwil, "Public Awareness and Opinion of Proposed Legislation on Physical Punishment of Children", ar 5 Mehefin. Cynhaliwyd y gwaith ymchwil hwn gyda sampl cwota cynrychioliadol o 1,002 o oedolion[23].

Cyn i'r Bil gael ei gyflwyno, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil i sefydlu llinell sylfaen ar agweddau cyhoeddus tuag at gosbi plant yn gorfforol, gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r gyfraith bresennol ac o'n cynnig ar gyfer newid y gyfraith.

Dangosodd yr arolwg cynrychioliadol hwn, er bod y farn ar y cwestiwn a yw'n angenrheidiol smacio plentyn weithiau wedi'i hollti, fod mwy yn anghytuno â'r datganiad (49%) nag oedd yn cytuno ag ef (35%). Felly mae'r ymchwil yn awgrymu nad yw'r mwyafrif o'r cyhoedd yng Nghymru yn cytuno bod smacio plant yn angenrheidiol.

Yn ogystal, canfu'r arolwg fod lefel y gefnogaeth i smacio hyd yn oed yn is ymhlith y genhedlaeth ifancach yng Nghymru; a'r rheini â chyfrifoldebau gofalu am blant saith oed ac iau. Roedd 60% o'r rhai rhwng 16 - 35, a 59% o'r rheini â chyfrifoldebau gofalu am blentyn saith oed ac yn iau, yn anghytuno â'r datganiad 'mae'n angenrheidiol smacio plentyn weithiau'.

Fel rhan o'n strategaeth i asesu effeithiolrwydd yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth, byddwn yn parhau i ddefnyddio arolygon cynrychioliadol i olrhain ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r newid yn y ddeddfwriaeth, newidiadau yn yr agweddau tuag at gosbi plant yn gorfforol a nifer y rhieni sy'n dweud eu bod yn defnyddio cosb gorfforol.

---

21 http://www.assembly.wales/laid%20documents/pri-ld12454-em/pri-ld12454-em-w.pdf

22 Gellir gweld yr asesiadau effaith llawn yma. https://llyw.cymru/bil-plant-diddymu-amddiffyniad-cosb-resymol-cymru-asesiad-effaith-integredig?_ga=2.87212636.536977230.1571406340-2021647112.1565781255

23 https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/agweddaur-cyhoedd-tuag-at-gosbi-plant-yn-gorfforol-arolwg-sylfaenol-2018.pdf